

Dyfarnu trwydded amblecs radio ar raddfa fach: Gogledd Sir Benfro

Cefndir

Mae Ofcom wedi penderfynu dyfarnu trwydded amblecs radio ar raddfa fach newydd ar gyfer Gogledd Sir Benfro i West Wales DAB Limited.

Wrth ystyried y ceisiadau mae'n eu derbyn ar gyfer trwyddedau amblecs radio ar raddfa fach, mae'n rhaid i Ofcom ystyried pob un o'r meini prawf statudol sydd wedi'u nodi yn adran 51(2) o Ddeddf Darlledu 1996 fel y mae wedi'i haddasu gan Orchymyn Amlblecs Radio ar Raddfa Fach a Radio Digidol Cymunedol 2019. Mae'r meini prawf fel a ganlyn:

1. maint ardal y ddarpariaeth (o fewn yr ardal neu'r gymdogaeth a bennir yn hysbysiad Ofcom yn gwahodd ceisiadau) y mae'r ymgeisydd yn cynnig ei chyflawni fel y nodir yn ei gynllun technegol a gyflwynwyd yn ei gais; (adran 51(2)(a))
2. gallu'r ymgeisydd i sefydlu'r gwasanaeth arfaethedig (adran 51(2)(c))
3. pa mor ddymunol yw dyfarnu'r drwydded i ymgeisydd:
 - a. sy'n berson sy'n darparu neu'n bwriadu darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno, neu
 - b. fel cyfranogwr, person sy'n darparu neu'n cynnig darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno; (adran 51(2)(ca))
4. i ba raddau y mae tystiolaeth fod galw neu gefnogaeth ar gyfer darparu'r gwasanaeth arfaethedig ymysg pobl sy'n darparu neu'n cynnig darparu gwasanaeth rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol yn yr ardal neu'r gymdogaeth honno (adran 51(2)(f)) ac
5. a yw'r ymgeisydd drwy gontractio neu gynnig contractio gydag unigolion yn darparu neu'n cynnig darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol lleol neu gymunedol, wedi gweithredu mewn modd a luniwyd i sichau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny. (adran 51(2)(g)).

Nid yw'r ddeddfwriaeth yn rhoi'r gofynion hyn yn nhrefn blaenoriaeth, ond mae'n bosib y bydd Ofcom yn ystyried bod un neu fwy o'r meini prawf yn arbennig o bwysig oherwydd nodweddion y drwydded a fydd yn cael ei dyfarnu a'r ceisiadau amdani.

Asesiad

Ar 14 Gorffennaf 2022, cyhoeddodd Ofcom hysbysiad yn gwahodd ceisiadau am drwyddedau i ddarparu gwasanaethau amblecs radio ar raddfa fach mewn ardaloedd gan gynnwys Gogledd Sir Benfro.

Erbyn y dyddiad cau, sef 14 Hydref 2022, roedd Ofcom wedi cael un cais ar gyfer Gogledd Sir Benfro. Roedd hyn gan West Wales DAB Limited (“West Wales DAB”). Roedd copi o rannau anghyfrinachol y cais ar gael i’r cyhoedd graffu arnynt ar wefan Ofcom, a gwahoddwyd sylwadau gan y cyhoedd fel sy’n ofynnol o dan adran 50(7), er na dderbyniwyd unrhyw sylwadau am y cais.

Aseswyd manylion y cais gan gydweithwyr Ofcom, gan gynnwys cynnal asesiad o’r cynllun technegol y mae’n rhaid ei gyflwyno fel rhan o bob cais. Cafodd y penderfyniad mewn perthynas â Gogledd Sir Benfro ei wneud gan banel o lunwyr penderfyniadau Ofcom a ddaeth ynghyd ar 28 Ebrill 2022. Roeddent wedi mynd ati’n ofalus i ystyried y cais, cyngor proffesiynol gan gydweithwyr Ofcom, a’r sylwadau cyhoeddus a dderbyniwyd. Roeddent wedi defnyddio’r meini prawf statudol wrth benderfynu a oeddent am ddyfarnu trwydded i’r ymgeisydd. Mae’r rhesymau dros eu penderfyniad i ddyfarnu’r drwydded i West Wales DAB wedi’u crynhoi isod.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(a), cynigiodd yr ymgeisydd llwyddiannus ddefnyddio dau drosglwyddydd i ddarparu ei wasanaeth. Mae cyfrifiadau Ofcom yn dangos y byddai hyn yn golygu mai ychydig dan 24% o’r boblogaeth oedolion yn ardal y drwydded a hysbysebwyd fyddai’n gallu derbyn y gwasanaeth. Roedd rhagfynegiadau darpariaeth Ofcom yn dangos y byddai’r gwasanaeth amblecs radio ar raddfa fach arfaethedig ar gael i ymhell o dan 40% o’r boblogaeth yn ardal drwyddedig pob un o’r gwasanaethau amblecs radio lleol sy’n gorgyffwrdd gwasanaethau amblecs radio lleol Canolbarth a Gorllewin Cymru ac Abertawe¹, a bod gorlif y tu allan i’r ardal a hysbysebwyd ymhell o dan 30% o boblogaeth yr ardal a hysbysebwyd. O ganlyniad, ni fyddai angen unrhyw fesurau lliniaru i gydymffurfio â’r trothwyon hyn. Nid oedd Ofcom chwaith yn credu ei bod yn debygol y byddai angen mesurau lliniaru i fynd i’r afael â phroblemau torri tyllau neu ymyriant allanion.

Nododd y rhai sy’n gwneud penderfyniadau fod y ddarpariaeth a ragwelwyd yn yr ardal a hysbysebwyd yn isel ac yn anghyson. Mewn amgylchiadau o’r fath, gwneir penderfyniad Ofcom ynghylch a ddylid dyfarnu ar sail amgylchiadau penodol yr ardal, heb unrhyw lefel trothwy wedi’i phennu ymlaen llaw mewn termau canran na phoblogaeth y mae’n rhaid i ymgeisydd eu bodloni. Yn hyn o beth, nododd y rhai sy’n gwneud penderfyniadau fod Gogledd Sir Benfro yn ardal sy’n dechnegol heriol i’w gwasanaethu, oherwydd topograffeg a’r ffaith bod y boblogaeth yn cael ei dosbarthu ar draws nifer sylweddol o ganolfannau poblogaeth cymharol fach. Roedd yr ymgeisydd wedi dewis safleoedd presennol, a oedd yn ddealladwy o ran eu gweithredu, ond lle’r oedd uchder isel yr erial ynghyd â thopograffeg leol, yn golygu bod y ddarpariaeth ddisgwyliedig yn anghyson (hynny yw, roedd llawer o ardaloedd wedi cael rhywfaint o ddarpariaeth ond ychydig o ganolfannau poblogaeth sylweddol a oedd â darpariaeth gadarn). Roedd disgwyl i’r ddarpariaeth ymestyn i

¹ Roedd Gogledd a De Sir Benfro wedi cael eu hysbysebu ar wahân ar y sail y byddai eu gorgyffwrdd gyda’i gilydd ag amblecs Canolbarth a Gorllewin Cymru yn fwy na 40% petai’r ddwy ardal yn cael eu gwasanaethu, ac mae adran 50(2A)(c) o Ddeddf Darlledu 1996 (fel y’i diwygiwyd) yn mynnu bod Ofcom yn ystyried pa mor ddymunol yw peidio â mynd y tu hwnt i’r trothwy hwn. O ystyried y cysylltiadau agos rhwng yr unig ymgeisydd yn y ddwy ardal, roedd Ofcom wedi ystyried a oedd risg y byddai gorgyffwrdd ar y cyd yn fwy na 40%. Fodd bynnag, roedd y ddarpariaeth gymharol isel a ragwelwyd gan bob un yn golygu nad oedd hyn yn wir.

boblogaeth oedolion o tua 20,000 yn gyffredinol. At ei gilydd, roedd y rheini a oedd yn gwneud penderfyniadau o'r farn bod maint tebygol y ddarpariaeth yn ddigonol yng nghyd-destun yr ardal leol i gyfiawnhau dyfarnu trwydded i'r unig ymgeisydd.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(c), ystyriodd Ofcom gynllun ariannol a busnes yr ymgeisydd, y cynllun technegol, yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r ddarpariaeth, a thystiolaeth o arbenigedd a phrofiad perthnasol. Dywedodd y rheini sy'n gwneud y penderfyniadau, er nad oedd angen mesurau lliniaru ar gyfer y cynllun technegol a gyflwynwyd, roedd y ddarpariaeth anghyson a ragwelwyd gan Ofcom yn is na'r hyn a ragwelwyd gan yr ymgeisydd ac o bosibl mewn perygl o danseilio gallu'r amblecs i ddenu gwasanaethau. Yn ymarferol, gallai hyn olygu y byddai'n rhaid i'r ymgeisydd geisio gwneud gwelliannau yn ei gynllun technegol terfynol i ategu ei gyrhaeddiad, gan oedi cyn lansio o'i gymharu â'r cynigion yn y cais. Fodd bynnag, roedd tystiolaeth resymol wedi'i darparu ynghylch yr arian sydd ar gael, ac roedd yr ymgeisydd wedi defnyddio cymorth technegol priodol i helpu gyda'r broses honno. Yn gyffredinol, roedd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau o'r farn, er bod risgiau, bod y cais yn rhoi digon o hyder y byddai'r ymgeisydd mewn sefyllfa i sefydlu'r gwasanaeth a gynigir o fewn 18 mis i ddyddiad y dyfarniad fel sy'n ofynnol gan y ddeddfwriaeth.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(ca), nododd Ofcom nad oedd unrhyw ddarpar wasanaethau C-DSP yn rhan o'r cwmni sy'n ymgeisio. O dan y ddeddfwriaeth, mae cynnwys person o'r fath yn nodwedd ddymunol ond nid yn anghenraid i ymgeiswyr.

Mewn perthynas ag adran 51(2)(f), roedd Ofcom wedi ystyried tystiolaeth o alw neu gefnogaeth gan bobl sy'n darparu neu'n cynnig darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol cymunedol neu leol (gwasanaethau C-DSP a DSP) yn yr ardal a hysbysebwyd. Roedd yr ymgeisydd wedi cael pum datganiad o ddiddordeb o ran darparu gwasanaethau C-DSP ac 19 o ran darparu gwasanaethau DSP (gan gynnwys nifer gan Pure West Radio Limited, yr unig ymgeisydd ar gyfer trwydded amblecs De Sir Benfro). Nododd y rheini sy'n gwneud penderfyniadau ei bod yn debygol y byddai amrywiaeth sylweddol o ran i ba raddau y gallai diddordeb droi'n wasanaethau ar yr amblecs, gan nodi bod nifer yn rhai sy'n cael eu cynllunio, yn hytrach nag yn wasanaethau sydd eisoes yn bodoli, ac efallai na fydd darpariaeth isel ac anghyson (fel y nodwyd uchod) yn foddhaol ar gyfer pob gwasanaeth sy'n mynegi diddordeb. Fodd bynnag, mae'n amlwg y bu lefel dda o waith maes, yn enwedig i'r sector cymunedol ac yn cwmpasu'r rhai sydd â diddordeb mewn darparu gwasanaeth Cymraeg. At ei gilydd, ystyriwyd bod lefel y diddordeb a fynegwyd yn dda ac roedd diddordeb y sector radio cymunedol i'w groesawu'n arbennig o ystyried y diffyg capasiti yng Ngogledd Sir Benfro (tri), sy'n cael ei adlewyrchu yn y lefelau cymharol isel o alw yn hanesyddol.

Yng nghyswllt adran 51(2)(g) ac ar sail y dystiolaeth a dderbyniwyd, roedd Ofcom yn fodlon bod yr ymgeisydd drwy gontractio neu gynnig contractio gydag unigolion yn darparu neu'n cynnig darparu gwasanaethau rhaglenni sain digidol lleol neu gymunedol, wedi gweithredu mewn modd a luniwyd i sicrhau cystadleuaeth deg ac effeithiol wrth ddarparu'r gwasanaethau hynny. Nododd y rhai sy'n gwneud penderfyniadau fod maint y gwaith maes i wasanaethau cymunedol newydd posibl i'w groesawu'n arbennig.

Nodir nad yw dyfarnu trwydded yn rhoi'r hawl i'r sawl y dyfernir trwydded iddo weithredu holl elfennau'r cynllun technegol a gyflwynwyd i Ofcom fel rhan o'r cais llwyddiannus. Bydd Ofcom yn trin cynigion yn y cynllun hwnnw, y gwnaed y dyfarniad ar eu sail, fel pethau y mae'r ymgeisydd llwyddiannus wedi ymrwymo i'w cyflawni o fewn y cyfnod o 18 mis a ganiateir rhwng dyfarnu a

lansio. Fodd bynnag, am resymau cynllunio sbectrwm, efallai y bydd Ofcom hefyd yn gofyn am ddiwygio cynigion rhwng dyfarnu a rhoi trwydded.

Mai 2023